



**Asiantaeth Sicrhau Ansawdd
Addysg Uwch (ASA)**

**Yr adroddiad blynyddol i
Gomisiynydd y Gymraeg ar weithredu
Cynllun Iaith Gymraeg ASA (2012)**

Cynnwys

Rhagair	1
Adran 1: Gwasanaethau dwyieithog i'r cyhoedd	2
Cyfathrebu gyda'r cyhoedd	2
Gohebiaeth ysgrifenedig	2
Cyfathrebu ar y ffôn	2
Digwyddiadau ar gyfer y sector yng Nghymru	2
Ein hwyneb cyhoeddus	3
Hunaniaeth gorfforaethol	3
Arwyddion	3
Gwefan	3
Cyhoeddiadau a chyhoeddusrwydd	4
Hysbysebu swyddi	6
Adran 2: Adolygu prifysgolion a cholegau	7
Adolygiad Sefydliadol	7
Adolygiad o Raddau Sylfaen yng Nghymru	7
Adolygu colegau sy'n darparu cyrsiau addysg uwch	7
Pwerau dyfarnu graddau a theitl prifysgol	7
Adolygu a thrwyddedu AVA	8
Cynnal adolygiadau	8
Adran 3: Gweithredu a monitro'r Cynllun	9
Rôl Tîm Cymru	9
Pwyllgor Cyngori Cymru	9
Staffio	10
Trefniadau gweinyddol	10
Monitro	11
Cyhoeddi'r Cynllun	11
Sylwadau am y Cynllun	11
Targedau	12
Atodiad 1: Canllaw bach i staff ASA am y Cynllun Iaith Gymraeg	14

Rhagair

Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio sut mae Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (ASA) wedi cyflawni ei goblygiadau dan dermau ei Chynllun Iaith Gymraeg (y Cynllun) wrth ddarparu ei gwasanaethau yng Nghymru o fis Ionawr hyd fis Rhagfyr 2012. Rydym yn y degfed flwyddyn o weithrediad y Cynllun, yn dilyn cymeradwyaeth ym mis Gorffennaf 2003 (ac ail gymeradwyo ym misoedd Ionawr 2008 a Hydref 2012).

Tîm Cymru yw'r pwyllgor mewnol sy'n monitro gweithgareddau ASA yng Nghymru. Mae'r Pwyllgor wedi'i gadeirio gan Bennaeth ASA Cymru ac mae'n cynnwys nifer o staff uwch o bob rhan o ASA. Un o rolau Tîm Cymru yw monitro gweithrediad y Cynllun gan ASA.

Mae gan y Swyddog Iaith Gymraeg gyfrifoldeb am fonitro gweithrediad y Cynllun o ddydd i ddydd ac am roi gwybod am unrhyw fethiannau gyda'i weithrediad i Bennaeth ASA Cymru. Yn 2012, rhannwyd rôl y Swyddog Iaith Gymraeg rhwng dau aelod o staff (y mae un ohonynt yn siarad Cymraeg). Parhaodd y Swyddogion i gynnal y gwaith o fonitro'r Cynllun Iaith Gymraeg, gan atgoffa'r staff yn rheolaidd am gyfrifoldebau ASA o dan y Cynllun.

Mae gweithgareddau adolygu ASA yng Nghymru'n parhau'n fach o'u cymharu â'i gweithgareddau adolygu cyffredinol yn y DU. Yn ystod 2012, roedd tri Adolygiad Sefydliadol yng Nghymru (Prifysgol Aberystwyth, Prifysgol Bangor a Phrifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant) ac un Adolygiad Ail-drwyddedu Asiantaeth Dilysu Mynediad (Agored Cymru). Cynhaliwyd digwyddiadau briffio a hyfforddi ar gyfer yr Adolygiadau o Raddau Sylfaen yng Nghymru sydd ar y gweill. Hefyd, gwnaeth ASA ymchwiliad i bryderon a leisiwyd am y gyn-berthynas rhwng Prifysgol Cymru, Finance and Business Training Ltd a'r London School of Business and Finance.

Anogir cyfathrebiad yn y Gymraeg yn frwd drwy wefan ASA a chyhoeddiadau eraill gan ASA. Ond, mae maint y cyfathrebiad ffôn a'r ohebiaeth ysgrifenedig drwy gyfrwng y Gymraeg yn parhau'n isel. Roedd nifer y cyhoeddiadau a gyhoeddwyd yn ddwyieithog yn 2012 bedair gwaith yn fwy na'r nifer a gyhoeddwyd yn 2011. Mae nifer y gwe-dudalennau a ddarperir yn ddwyieithog wedi dyblu bron rhwng 2011 a 2012, a thyfodd nifer yr ymweliadau â gwe-dudalennau iaith Gymraeg ASA o oddeutu 200 y cant.

Adran 1: Gwasanaethau dwyieithog i'r cyhoedd

Cyfathrebu gyda'r cyhoedd

Gohebiaeth ysgrifenedig

1 Mae ASA yn parhau i allu ymateb yn ddwyieithog i ohebiaeth ysgrifenedig. Mae pob gohebiaeth a dderbynnir yn y Gymraeg yn cael ei chofnodi, ystyrir yr ohebiaeth yn gyntaf gan Swyddog Iaith Gymraeg ASA ac, os yw'n briodol, defnyddir gwasanaethau cyfieithu i ddarllen yr ohebiaeth a'i hateb. Yn 2012, derbyniwyd chwe eitem o ohebiaeth yn y Gymraeg (un gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a phump gan swyddfa Comisiynydd y Gymraeg). Cynhyrchwyd dau ymateb dwyieithog yn unol â'r Cynllun.

2 Heblaw bod hynny wedi'i gytuno o flaen llaw gyda'r sawl sy'n derbyn yr ohebiaeth, mae'r holl ohebiaeth a ddaw gan ASA (gan gynnwys llythyrau safonol a chylchlythyrau) sy'n ymwneud â gweithgareddau ASA yng Nghymru yn unig, yn cael ei hanfon yn y ddwy iaith. Yn 2012, cyfieithwyd naw llythyr i gyd gan ASA.

3 Mae'r defnydd cyson o ddeunydd ysgrifennu gyda phennawd dwyieithog ar gyfer pob gohebiaeth gydag unigolion a sefydliadau yng Nghymru wedi dod yn arfer sefydledig ledled ASA. Mae Prif Weinyddwr ASA Cymru'n monitro'r defnydd a wneir o ddeunydd ysgrifennu dwyieithog ac, os bydd cydweithwyr heb ddefnyddio'r deunydd cywir, mae'n rhoi canllawiau iddynt.

Cyfathrebu ar y ffôn

4 Mae gan ASA gytundeb ag Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr (UCM) Cymru sy'n golygu bod swyddfa UCM yng Nghaerdydd yn gweithredu fel canolfan alw a phwynt cysylltu cyntaf i unrhyw un sydd eisiau cyfathrebu gydag ASA yn y Gymraeg. Yn 2012, derbyniodd UCM Cymru un alwad ar y llinell ffôn uniaith Gymraeg, a gallent ateb honno heb ei phasio ymlaen i linell ffôn Gymraeg Swyddog Iaith Gymraeg ASA.

5 Rhoddir cyhoeddusrwydd i'r llinell ffôn Gymraeg ar y tudalennau 'Croeso i ASA Cymru' a 'Cysylltu â ni' ar wefan ASA, sy'n datgan fel yma: 'Mae ASA yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg fel ei gilydd. I siarad â ni yn y Gymraeg, ffoniwch 029 2048 5963 os gwelwch yn dda.' Tynnwyd sylw at y llinell ffôn Gymraeg hefyd mewn datganiad i'r wasg am Gynllun Iaith Gymraeg ASA ym mis Tachwedd 2012.

Digwyddiadau ar gyfer y sector yng Nghymru

6 Cynhaliwyd digwyddiad briffio yn Llandrindod ar 6 Gorffennaf 2012 ar gyfer yr Adolygiadau o Raddau Sylfaen yng Nghymru sydd ar y gweill (i ddigwydd yn 2013), er mwyn helpu cyfranogwyr i baratoi ar gyfer y broses adolygu. Daeth 49 o bobl, yn cynnwys myfyrwyr a staff addysg uwch o sefydliadau yng Nghymru. Croesawyd y gynulleidfa drwy gyfrwng y Gymraeg gan Gyfarwyddwr Cynorthwyol ASA, a darparwyd rhaglenni, rhestrau o'r cyfranogwyr a thafenni gwerthuso ar gyfer y digwyddiad yn ddwyieithog. Nid oedd unrhyw alw gan gynrychiolwyr am wasanaethau cyfieithu ar y pryd.

7 Cynhaliwyd digwyddiad hyfforddi yng Nghaerdydd ar 9-10 Hydref 2012 i dimau adolygu sy'n cymryd rhan mewn Adolygiad o Raddau Sylfaen yng Nghymru. Diben hwn oedd trafod y dull adolygu a chaniatáu i adolygwyr ymarfer y sgiliau adolygu craidd. Daeth tri ar ddeg o adolygwyr ac wyth enwebai o sefydliadau yng Nghymru i'r digwyddiad, a darparwyd rhaglenni, rhestrau o'r cyfranogwyr a thafenni gwerthusol ar eu cyfer oll yn ddwyieithog.

8 Hefyd dechreuodd y paratoadau ar gyfer Derbyniad Blynyddol ASA 2013, sydd i gael ei chynnal yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ar Fehefin 19eg. Bydd ffocws y digwyddiad

hwn ar ffyrdd o ennyn ymgysylltiad y myfyrwyr yn y materion sy'n cael effaith ar ansawdd eu haddysg a'u galluogi i yrru gwelliannau mewn prifysgolion a cholegau yng Nghymru. Bydd digwyddiad yn gyfle i fyfyrwyr a staff o'r DU - ac o sector addysg uwch Cymru yn arbennig - gwrdd ag Aelodau'r Cynulliad. Mae trefniadau ar waith i sicrhau darpariaeth iaith Gymraeg ysgrifenedig a llafar yn y digwyddiad, yn dibynnu ar y galw gan gynrychiolwyr.

Ein hwyneb cyhoeddus

Hunaniaeth gorfforaethol

9 Mae gan ASA ddeunydd ysgrifennu dwyieithog ar ffurf penawdau llythyron a slipiau cyfarch. Mae templedi sy'n ymwneud â gwaith ASA yng Nghymru (megis llythyrau safonol ar gyfer Adolygiad Sefydliadol) yn cynnwys y pennawd a'r troedyn llythyr dwyieithog ac maent ar gael i'r staff ar fewnwyd ASA. Mae'r holl gyhoeddiadau eraill sydd angen logo Cymraeg ASA (er enghraifft cylchlythyrau, adroddiadau adolygiad a chanllawiau) yn tueddu i gael eu cyhoeddi ar ffurf electronig yn unig ac yn cael eu trin ar sail ad hoc ac, o ganlyniad, nid oes yn rhaid printio o flaen llaw.

10 Yn ystod 2012, rhoddodd ASA ei Chynllun Trwyddedu'r Logo ar waith, ac o dan hwn mae modd i sefydliadau sy'n tanysgrifio arddangos Marc Ansawdd ASA ar eu gwefannau a chyhoeddiadau. Mae fersiwn dwyieithog o'r Marc Ansawdd ar gael i sefydliadau yng Nghymru, ac mae un sefydliad yng Nghymru wedi manteisio ar y cyfle i ddefnyddio'r Marc Ansawdd hyd yn hyn.

Arwyddion

11 Yn ystod 2012, cynhyrchwyd arwyddion dwyieithog yn rhan o'r gwaith paratoi ar gyfer agor swyddfa newydd ASA yng Nghaerdydd. Bydd y swyddfa hon yn agor yn fuan yn 2013. Bydd yr arwyddion sy'n rhoi gwybodaeth yn adeilad y swyddfeydd ynghyd â'r cyfarwyddiadau ar sut i gyrraedd y swyddfa sydd ar wefan ASA, oll yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Gwefan

12 Mae gwefan ASA yn cynnwys adran ddwyieithog am ein gwaith yng Nghymru a gwe-dudalennau dwyieithog am adolygiadau i sefydliadau yng Nghymru; diweddarwyd y gwe-dudalennau hyn i gyd yn ystod 2012. Mae gan dudalennau 'ASA Cymru' frandio arbennig, sy'n defnyddio baner y ddraig goch a chynllun lliw gwahanol, i wneud y tudalennau sy'n ymwneud â'n gwaith yng Nghymru yn weledol amlwg.

13 Cyhoeddwyd yr holl we-dudalennau a chyhoeddiadau newydd sy'n ymwneud â gwaith ASA yng Nghymru ac â sefydliadau yng Nghymru yn ddwyieithog. Diweddarwyd a chyfieithwyd y gyfres o we-dudalennau am 'Bryderon' (yn cynnwys arweiniad ynghylch lleisio pryderon am sefydliadau neu gwyno am ASA) yn ystod 2012.

14 Cyhoeddwyd rhestr termau Cymraeg ar-lein ASA (yn ymwneud ag addysg uwch, ac â gwaith sicrhau ansawdd yn arbennig) ym mis Ebrill 2012 a chafodd ei diweddarau drwy gydol y flwyddyn.

15 Ym mis Rhagfyr 2012, cyhoeddwyd Cronfa Wybodaeth ar-lein o Nodweddion o Arfer Da, fel bod modd i ddefnyddwyr y we chwilio am nodweddion o arfer da a welwyd mewn Adolygiadau Sefydliadol (Lloegr a Gogledd Iwerddon) drwy amrywiol feini prawf. Gwnaed paratodau i alluogi i nodweddion o arfer da dwyieithog o adolygiadau ASA yng Nghymru gael eu hychwanegu at y Gronfa Wybodaeth yn 2013.

16 Yn 2012, cyfieithwyd 34 o ddarnau ar gyfer gwefan gyhoeddus ASA. Ar hyn o bryd mae 151 o dudalennau iaith Gymraeg ar y wefan, ac ymwelwyd â'r tudalennau unigol yma 3,317 o weithiau i gyd rhwng misoedd Ionawr a Rhagfyr 2012 (yn gynhwysol). Mae nifer y

gwe-dudalennau a ddarperir yn ddwyieithog wedi dyblu bron rhwng 2011 a 2012, a thfodd nifer yr ymweliadau â gwe-dudalennau iaith Gymraeg ASA o oddeutu 200 y cant.

17 Mae'r ystadegau mewn perthynas â thudalennau iaith Gymraeg dethol gwefan ASA ar gyfer misoedd Ionawr hyd Ragfyr 2012 (yn gynhwysol) i'w gweld isod.

URL	Nifer y tudalennau unigol yr ymwelwyd â hwy
ASA Cymru www.qaa.ac.uk/Wales/pages/cymru.aspx	204
Rhestr termau www.qaa.ac.uk/aboutus/rhestr/pages/default.aspx	91
Cynllun iaith Gymraeg 2012-15 www.qaa.ac.uk/publications/informationandguidance/pages/cynllun-iaith-Gymraeg-2012.aspx	1
Cefnogi siaradwyr Cymraeg drwy ein Cynllun iaith Gymraeg www.qaa.ac.uk/publications/informationandguidance/pages/cefnog-i-siaradwyr-Cymraeg.aspx	8
Canllawiau ar gyfer sefydliadau addysg uwch yng Nghymru ar arfer da, effeithiol mewn arholi ac asesu mewn iaith sy'n wahanol i'r iaith addysgu www.qaa.ac.uk/publications/informationandguidance/pages/canllawiau-asesu-Cymraeg.aspx	4
Adolygiad o Raddau Sylfaen yng Nghymru www.qaa.ac.uk/institutionreports/types-of-review/pages/graddau-sylfaen-Cymru.aspx	10
Adolygiad Sefydliadol (Cymru) www.qaa.ac.uk/institutionreports/types-of-review/pages/adolygiad-sefydliadol-Cymru.aspx	57

Tabl 1: Cyfanswm yr ymweliadau â gwe-dudalennau Cymraeg unigol dethol (2012)

Cyhoeddiadau a chyhoedduswyd

18 Roedd nifer y cyhoeddiadau a gyhoeddwyd yn ddwyieithog yn 2012 bedair gwaith yn fwy na'r nifer a gyhoeddwyd yn 2011. Yn 2012, cynhyrnodd ASA y cyhoeddiadau dilynol yn ddwyieithog:

Dyddiad	Cyhoeddiad
Ionawr 2012	Adroddiad blynyddol i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru 2010-11 www.qaa.ac.uk/Publications/InformationAndGuidance/Pages/Adroddiad-blynyddol-CCAUC-2010-11.aspx
Chwefror 2012	Adolygiad sefydliadol i sicrhau gwelliant (ELIR) (Yr Alban) ac Adolygiad Sefydliadol (Cymru): Y drefn apeliadau
Mawrth 2012	Cylchlythyr 05/12 - Ymgynghoriad ar y Llawlyfr ar gyfer yr Adolygiad o Raddau Sylfaen yng Nghymru www.qaa.ac.uk/Publications/CircularLetters/Pages/CL0512C.aspx

Mehefin 2012	Y Llawlyfr Adolygiad Sefydliadol (Cymru) www.qaa.ac.uk/Publications/InformationAndGuidance/Pages/adolygiad-sefydliadol-Cymru-llawlyfr-2012.aspx
Mehefin 2012	Pryderon ynghylch safonau ac ansawdd mewn addysg uwch: Prifysgol Cymru a Finance and Business Training Ltd a'r London School of Business and Finance (UK) Ltd www.qaa.ac.uk/Publications/InformationAndGuidance/Pages/pryderon-prifysgol-Cymru-FBT-LSBF.aspx
Mehefin 2012	Prifysgol Morgannwg: Dilyniant canol cylchred adolygu'r Adolygiad Sefydliadol, Mawrth 2009
Mehefin 2012	Prifysgol Fetropolitan Abertawe: Dilyniant canol cylchred adolygu'r Adolygiad Sefydliadol, Mawrth 2009
Awst 2012	Llawlyfr ar gyfer yr Adolygiad o Raddau Sylfaen yng Nghymru www.qaa.ac.uk/Publications/InformationAndGuidance/Pages/graddau-sylfaen-Cymru-llawlyfr.aspx
Hydref 2012	Adolygiad Sefydliadol: Prifysgol Bangor www.qaa.ac.uk/InstitutionReports/Reports/Pages/adolyg-sef-Bangor-12.aspx
Hydref 2012	Adolygiad Sefydliadol: Prifysgol Aberystwyth www.qaa.ac.uk/InstitutionReports/Reports/Pages/adolyg-sef-Aberystwyth-12.aspx
Tachwedd 2012	Adolygiad Sefydliadol: Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant www.qaa.ac.uk/InstitutionReports/Reports/Pages/adolyg-sef-Drindod-12.aspx
Tachwedd 2012	Adroddiad blynyddol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg 2011 www.qaa.ac.uk/Publications/InformationAndGuidance/Pages/adroddiad-blynyddol-i-FIG-2011.aspx
Tachwedd 2012	Asesiad risg y Cynllun Iaith Gymraeg http://www.qaa.ac.uk/Publications/InformationAndGuidance/Pages/asesiad-risg-CIG.aspx
Tachwedd 2012	Y Cynllun Iaith Gymraeg 2012-15 www.qaa.ac.uk/Publications/InformationAndGuidance/Pages/cynllun-iaith-Gymraeg-2012.aspx
Tachwedd 2012	Cefnogi siaradwyr Cymraeg drwy ein Cynllun Iaith Gymraeg www.qaa.ac.uk/Publications/InformationAndGuidance/Pages/cefnogi-siaradwyr-Cymraeg.aspx
Rhagfyr 2012	Canllawiau bach: arweiniad byr i fyfyrwyr am yr Adolygiad o Raddau Sylfaen yng Nghymru www.qaa.ac.uk/Publications/InformationAndGuidance/Pages/FDW-mini-guide-W.aspx
Rhagfyr 2012	Adolygiad o Raddau Sylfaen yng Nghymru: Arweiniad i Brif Gynrychiolwyr Myfyrwyr www.qaa.ac.uk/Publications/InformationAndGuidance/Pages/FDW-LSR-guide-W.aspx

Tabl 2: Cyhoeddiadau a gynhyrchwyd yn ddwyieithog (2012)

19 Cyhoeddwyd tri datganiad dwyieithog i'r wasg yn ystod 2012: dau yn rhoi cyhoedduswydd i gyhoeddi adroddiadau dwyieithog ac un yn tynnu sylw at Gynllun Iaith

Gymraeg diwygiedig ASA a'r gwasanaethau dwyieithog y mae ASA yn eu darparu i'w rhanddeiliaid yng Nghymru.

Hysbysebu swyddi

20 Mae hysbysebion am swyddi gwag lle mae sgiliau iaith Gymraeg yn arbennig o berthnasol (er enghraifft, yn y Grŵp Ymgysylltiad Cyhoeddus) yn cynnwys y fanyleb: 'Manteisiol: yn gallu siarad Cymraeg yn hyderus/yn gallu darllen a deall y Gymraeg'.

21 Nid oedd unrhyw swyddi gwag wedi'u hysbysebu'n ddwyieithog yn ystod 2012, am na hysbysebwyd unrhyw swyddi gwag yng Nghymru na swyddi y mae sgiliau iaith Gymraeg yn hanfodol ar eu cyfer.

22 Ffurfiolwyd rôl y Swyddog Iaith Gymraeg (sy'n gyfrifol am gydlynu cyfieithiadau a chefnogi gweithrediad y Cynllun) ac, yn 2012, rhannwyd y rôl rhwng dau aelod o staff yn y Grŵp Ymgysylltiad Cyhoeddus (y mae un ohonynt yn siarad Cymraeg).

Adran 2: Adolygu prifysgolion a cholegau

Adolygiad Sefydliadol

23 Cynhaliwyd tri Adolygiad Sefydliadol mewn sefydliadau yng Nghymru yn 2012:

- Prifysgol Aberystwyth
- Prifysgol Bangor
- Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant.

24 Dywedodd y tri sefydliad y byddai'n well ganddynt gael y mwyafrif o'u hadolygiadau yn Saesneg, er bod rhai agweddau o'r cyfarfodydd gyda staff a myfyrwyr o'r sefydliadau wedi'u gweithredu'n ddwyieithog gan ddefnyddio gwasanaethau cyfieithu ar y pryd. Cyhoeddwyd yr adroddiadau adolygiad yn ddwyieithog ar wefan gyhoeddus ASA.

25 Rydym yn casglu adborth am brofiadau'r sefydliadau ar ddiwedd pob adolygiad a byddwn yn defnyddio'r adborth hwn i werthuso a gwella darpariaeth y gwasanaethau iaith Gymraeg a gynigir yn ystod adolygiadau. Gofynnir dau gwestiwn am y ddarpariaeth Gymraeg, sef:

- Yn y cyfarfod cyntaf, a drafodwyd dewisiadau iaith Gymraeg?
- Pan ddewiswyd gweithredu busnes drwy gyfrwng y Gymraeg neu yn y ddwy iaith, a wnaeth ASA drefniadau perthnasol yn effeithiol?

Cadarnhaodd bob sefydliad bod dewisiadau iaith Gymraeg yn cael eu trafod mewn cyfarfodydd cychwynnol a bod trefniadau effeithiol yn cael eu gweithredu ar gyfer darparu drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg os gofynnwyd am hynny. Dywedodd un sefydliad bod 'y tîm adolygu wedi ymateb yn bositif ac yn sensitif i ofynion ieithyddol y Brifysgol'. Nododd un arall bod y cyfathrebiad dwyieithog yn dda a'i bod hi'n hanfodol cael siaradwr Cymraeg yn y tîm adolygu. Dywedodd un adolygwr hefyd mai un o nodweddion mwyaf positif yr adolygiad oedd y gallu i gyfathrebu a chysylltu yn y Gymraeg.

Adolygiad o Raddau Sylfaen yng Nghymru

26 Cychwynnodd y paratodau yn ystod 2012 ar gyfer yr Adolygiadau o Raddau Sylfaen sydd ar y gweill yng Nghymru, a fydd yn digwydd mewn wyth sefydliad yn 2013. Gofynnwyd i bob sefydliad beth oedd eu dewis iaith ar gyfer cynhyrchu'r adroddiad adolygiad (ni fydd y rhain wedi'u gwneud yn gyhoeddus ar gyfer y dull adolygu hwn), a gofynnodd dau sefydliad am adroddiadau dwyieithog. Aeth y Grŵp Gweithrediadau Adolygiad o Raddau Sylfaen yng Nghymru ati i drefnu bod Adolygwyr Cydlynu'n canfod mewn cyfarfodydd paratoadol a yw unrhyw un o'r partïon sy'n cymryd rhan yn yr adolygiad eisiau gwneud y gwaith yn ddwyieithog.

Adolygu colegau sy'n darparu cyrsiau addysg uwch

27 Yn ystod 2012, doedd dim adolygiadau o golegau yng Nghymru sy'n darparu cyrsiau addysg uwch.

Pwerau dyfarnu graddau a theitl prifysgol

28 Yn ystod 2012, ni chafodd unrhyw sefydliadau yng Nghymru eu craffu ar gyfer derbyn pwerau dyfarnu graddau neu deitl prifysgol.

Adolygu a thrwyddedu AVA

29 Yn 2012, cynhaliwyd Adolygiad Ail-drwyddedu Asiantaeth Dilysu Mynediad (AVA) yn Agored Cymru. Bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi'n ddwyieithog yn 2013. Dywedodd Agored Cymru y byddai'n well ganddo gael ei adolygu drwy gyfrwng y Saesneg.

Cynnal adolygiadau

30 Yn rhan o ymrwymiad ASA i gynnwys myfyrwyr mewn timau adolygu, bu dau adolygwr sy'n fyfyrwyr ac sy'n gallu gweithio'n ddwyieithog yn cymryd rhan mewn Adolygiadau Sefydliadol yng Nghymru am y tro cyntaf yn ystod 2012. Gallai pedwar o'r adolygwyr ASA nad ydynt yn fyfyrwyr weithio'n ddwyieithog hefyd. O ystyried mor fach yw gweithgareddau adolygu ASA yng Nghymru, credwn fod y lefel hon o gefnogaeth i'r adolygiad iaith Gymraeg yn gosod sail gadarn ar gyfer cyflawni ein hymrwymadau o dan y Cynllun.

Adran 3: Gweithredu a monitro'r Cynllun

Rôl Tîm Cymru

31 Tîm Cymru yw'r pwyllgor mewnol sy'n monitro gweithgareddau ASA yng Nghymru. Mae'r Pwyllgor wedi'i gadeirio gan Bennaeth ASA Cymru ac mae'n cynnwys nifer o staff uwch o bob rhan o ASA. Un o rolau Tîm Cymru yw monitro gweithrediad y Cynllun Iaith Gymraeg gan ASA. Mae Tîm Cymru'n gyfrifol hefyd am sicrhau fod yr iaith Gymraeg yn derbyn ystyriaeth wrth lunio polisïau a mentrau newydd ac mae'r aelodau hyn o Dîm Cymru'n cydweithio'n agos â'r Grŵp Ymgysylltiad Cyhoeddus.

32 Mae Tîm Cymru'n cyfarfod yn ffurfiol dair gwaith bob blwyddyn. Yn ystod 2012, cyfarfu Tîm Cymru ym misoedd Mawrth, Gorffennaf a Thachwedd. Dyma oedd yr aelodau o Dîm Cymru yn 2012:

Enw	Cyfrifoldebau aelodau Tîm Cymru
Dr Irene Ainsworth	Pennaeth Pwerau Dyfarnu Graddau a Theitl Prifysgol
Mr Douglas Blackstock	Cyfarwyddwr Adnoddau
Ms Pat Cooper (Ysgrifenyddes)	Prif Weinyddwr ASA Cymru
Miss Alicia Danks	Swyddog Iaith Gymraeg
Ms Kath Dentith	Pennaeth Mynediad i Addysg Uwch
Ms Jenny Drayden	Swyddog Iaith Gymraeg
Ms Barbara Edwards	AU mewn AB, Adolygiad o Raddau Sylfaen
Dr Julian Ellis (Cadeirydd)	Pennaeth ASA Cymru
Ms Jennifer Evans	Pennaeth Datblygu Busnes
Dr David Gale	Cynllun Swyddog Cyswllt
Miss Sarah Halpin	Cyswllt myfyrwyr
Dr Stephen Jackson	Cyfarwyddwr Adolygiadau
Ms Anett Loescher	Safonau, ansawdd a gwelliant
Mrs Helen Markham	Cymorth gweithredol ar gyfer Adolygiadau
Mr Tony Platt	Adolygiadau
Ms Liz Rosser	Pennaeth Cyllid
Mr David Thompson	Cysylltiadau cyhoeddus

Tabl 3: Aelodau Tîm Cymru a'u cyfrifoldebau (2012)

Pwyllgor Cyngori Cymru

33 Mae Pwyllgor Cyngori Cymru'n is-bwyllgor i'r Bwrdd ASA sydd â'r rôl o gynghori'r Bwrdd am ddatblygu a darparu gwasanaethau ASA yng Nghymru yn unol â'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar y cyd gyda Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) ac Addysg Uwch Cymru (AUC). Cyfarfu Pwyllgor Cyngori Cymru ddwywaith yn ystod 2012, ym misoedd Mai a Rhagfyr. Dyma oedd aelodau Pwyllgor Cyngori Cymru yn 2012:

Enw	Swydd
Yr Athro Anthony Chapman	Is-Ganghellor, Prifysgol Fetropolitan Caerdydd
Ms Pat Cooper	Prif Weinyddwr ASA Cymru

Dr Julian Ellis	Pennaeth ASA Cymru
Mr David Finch	Dirprwy Pennaeth (Academaidd), Y Coleg Ystrad Mynach
Ms Linda Howells	AEM Rheoli (Arolygydd Ei Mawrhydi), Oedolion ac Athrawon yn Estyn
Dr Helena Lim	Cydlynnydd Cenedlaethol (Cymru a Gogledd Iwerddon), yr Academi Addysg Uwch
Ms Stephanie Lloyd	Llywydd UCM Cymru
Mr Anthony McClaran	Prif Weithredwr, ASA
Yr Athro Clive Mulholland	Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil a Phrofiad y Myfyrwyr), Prifysgol Morgannwg
Ms Lisa Newberry	Cynghorydd Polisi, AUC
Dr Cliona O'Neill	Pennaeth Profiad Myfyrwyr, CCAUC
Yr Athro Alan Speight	Dirprwy Is-Ganghellor (Profiad y Myfyrwyr ac Ansawdd Academaidd), Prifysgol Abertawe

Tabl 4: Aelodau Pwyllgor Cynghori Cymru (2012)

34 Yn 2013, bydd ASA yn gweithredu newidiadau i Gylch Gwaith ac aelodaeth y Pwyllgor. Bydd yr aelodaeth ddiwygiedig yn cynnwys cynrychiolydd o'r Coleg Gymraeg Cenedlaethol.

Staffio

35 Yn 2012, roedd saith aelod o staff ASA yn siarad Cymraeg. Derbyniodd un aelod o staff (un o'r ddau sy'n gwneud rôl y Swyddog Iaith Gymraeg) hyfforddiant allanol am wythnos ar ffurf cwrs dwys Cymraeg i ddechreuwr. Credwn fod y lefel hon o gefnogaeth i'r iaith Gymraeg yn gosod sail gadarn ar gyfer gweithredu ein Cynllun a chyflawni ein hymrwymiaidau parhaus.

Trefniadau gweinyddol

36 Mae gan ASA weithdrefnau ar waith i gyfieithu dogfennau a thestunau. Fel arfer, ystyrir y deunyddiau sydd angen eu cyfieithu mewn un o ddwy ffordd. Gall un o staff dwyieithog ASA gyfieithu testunau byrion. Os yw'r testun yn fwy sylweddol, bydd y cyfieithu'n cael ei gcontractio allan i asiantaeth gyfieithu. Dyma sy'n digwydd gyda'r mwyafrif o ddogfennau. Mae pob asiantaeth gyfieithu a ddefnyddir gan ASA yn aelodau o Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru.

37 Yn ystod 2012, rhoddodd y Swyddogion Iaith Gymraeg hyfforddiant diweddarau anffurfiol i rai o'r staff (er enghraifft, yn y Tîm Amlgyfrwng), i'w hatgoffa am oblygiadau ASA o dan y Cynllun i gyhoeddi diweddariadau i'r wefan yn y Gymraeg a'r Saesneg ar yr un pryd, a chynllunio digon o amser i gyfieithu cyhoeddiadau am waith ASA yng Nghymru. Hefyd, darparodd Prif Weinyddwr ASA Cymru 20 o gyflwyniadau i'r Cynllun i staff newydd yn rhan o'u cyfnod ymglyfarwyddo ag ASA.

Monitro

38 Mae gan y Swyddogion Iaith Gymraeg gyfrifoldeb am fonitro gweithrediad y Cynllun o ddydd i ddydd ac am roi gwybod am unrhyw fethiannau gyda'i weithrediad i Bennaeth ASA Cymru. Yn 2012, parhaodd y Swyddogion i gynnal y gwaith o fonitro'r Cynllun, gan atgoffa'r staff yn rheolaidd am gyfrifoldebau ASA o dan y Cynllun.

39 Mae Tîm Cymru'n gyfrifol am fonitro gweithrediad y Cynllun. Mae Pennaeth ASA Cymru, fel Rheolwr y Cynllun, yn uniongyrchol gyfrifol i'r Prif Weithredwr am weithredu'r Cynllun. Mae Rheolwr y Cynllun yn adrodd yn uniongyrchol i Gyfarwyddiaeth ASA yn flynyddol ac mae'r adroddiad yn cael ei basio ymlaen at Fwrdd ASA. Yn ogystal, mae Rheolwr y Cynllun yn adrodd i Bwyllgor Cynghori Cymru ASA ar weithrediad y Cynllun.

40 Yn rhan o'i Chytundeb Lefel Gwasanaeth gyda CCAUC ac AUC, mae ASA yn ymrwymo i barhau â'i gallu fel sefydliad i ymdrin ag ymholiadau cyfrwng Gymraeg a chyflawni gofynion eraill y cynllun iaith.

41 Yn 2012, aeth cynrychiolwyr o ASA i sesiwn briffio i Swyddogion Iaith Gymraeg a roddwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg er mwyn dysgu am gyflwyniad arfaethedig y Safonau newydd.

42 Rydym yn parhau'n hyderus fod ein trefniadau cyfredol yn darparu sylfaen dda ar gyfer monitro ac adrodd ar weithrediad y Cynllun.

Cyhoeddi'r Cynllun

43 Mae gan ASA y mesurau dilynol yn eu lle i wneud y staff yn ymwybodol o ddisgwyliadau'r Cynllun.

- Mae canllaw bach ar gael i'r staff i gyd (gwelwch Atodiad 1). Mae'r cyfarwyddyd desg yma'n rhoi crynodeb o'r Cynllun a'r disgwyliadau a roddir ar y staff.
- Mae'r canllaw bach a'r Cynllun ar gael i'r holl staff ar fewnwyd a gwefan ASA.
- Mae cyflwyniad i'r Cynllun yn rhan o'r broses ymsefydlu i staff sydd newydd gael eu penodi.
- Pan welir nad yw'r cynllun yn cael ei weithredu (er enghraifft, os na ddefnyddir papur gyda phennawd dwyieithog, neu os yw testun Saesneg wedi'i gyhoeddi ar y wefan cyn i'r cyfieithiad Gymraeg fod ar gael), atgoffir y staff am eu cyfrifoldebau o dan y Cynllun a, lle bo'n briodol, rhoddir mesurau yn eu lle i sicrhau nad yw gwallau o'r fath yn digwydd yn y dyfodol.
- Mae sgwrs wedi'i gynllunio i hysbysu staff am y Cynllun Iaith Gymraeg diwygiedig, a bydd hon wedi'i chyflwyno ym mis Ionawr 2013. Bydd yn gyfle i'r staff glywed rhagor am effaith y Cynllun ar eu gwaith ac ymhle i ganfod cefnogaeth, yn ogystal â chasglu copïau papur o'r canllaw bach i staff am y Cynllun.

Sylwadau am y Cynllun

44 Yn ystod 2012, ni dderbyniodd ASA unrhyw sylwadau neu gwynion am ei Chynllun Iaith Gymraeg.

Targedau

45 Mae'r targedau penodol yn y Cynllun 2012-15 sydd i gael eu monitro'n flynyddol yn cynnwys:

Targedau	Gweithredu ac amseriad	Cwblhawyd?
Gwerthuso effeithiolrwydd Tîm Cymru.	Bydd y gwerthusiad nesaf yn digwydd yn 2012	Yn barhaus
Adolygu'r Cynllun i sicrhau bod ymrwymiad ASA i'r Iaith Gymraeg yn parhau.	Erbyn Ebrill 2012	Cwblhawyd
Galluogi a chefnogi staff i ddefnyddio'r Cynllun Iaith Gymraeg fel rhan o'u gwaith dyddiol, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> cynhyrchu pamffled cyflwyno bach i staff yn ychwanegol at y cyfarwyddyd desg presennol adolygu a diweddarau'r cyfarwyddyd desg presennol podlediad ar ddefnyddio'r Cynllun. 	Yn ystod 2012 Yn ystod 2012 ac yn barhaus Yn ystod 2012	Cwblhawyd Cwblhawyd Yn barhaus (dyddiad targed Chwe 2013)
Gwneud arolwg o wasanaethau dwyieithog ASA.	Yn ystod 2012	Yn barhaus (dyddiad targed Ion 2013)
Annog pobl i ddefnyddio gwasanaethau iaith Gymraeg drwy ddulliau marchnata a hyrwyddo, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> cynnal a gwella'r adran iaith Gymraeg ar wefan ASA cynhyrchu canllawiau bach hawdd eu darllen i fyfyrwr ar y Cynllun datblygu trefniadau cilyddol gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a chyrrff perthnasol eraill i hyrwyddo gwasanaethau ASA. 	Yn barhaus Yn ystod 2012 Yn ystod 2012 ac yn barhaus	Yn barhaus Cwblhawyd Yn barhaus
Datblygu rôl ASA o fewn agenda'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog drwy: <ul style="list-style-type: none"> gyfarfod â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn rheolaidd ystyried materion perthnasol drwy ei brosesau adolygu. 	Bob blwyddyn Yn barhaus	Cwblhawyd Yn barhaus

Tabl 5: Targedau penodol sydd i gael eu monitro'n flynyddol

46 Bydd y gwerthusiad o effeithiolrwydd Tîm Cymru'n digwydd yn ystod y flwyddyn academaidd 2012-13.

47 Adolygwyd ac ail ysgrifennwyd Cynllun Iaith Gymraeg ASA yn ystod 2011-12. Y bwriad oedd ei gyhoeddi ym mis Ebrill 2012, ond oherwydd gwall mewnol, ni anfonwyd y Cynllun diwygiedig at Gomisiynydd y Gymraeg i gael ei gymeradwyo hyd fis Mehefin ac, o ganlyniad i hynny, ni chafodd ei gyhoeddi hyd fis Hydref. Cafodd hyn effaith ddilynol ar nifer o'r targedau eraill (a drafodir isod), a ohiriwyd oherwydd cyhoeddi'r Cynllun yn hwyr.

48 Cynhyrwyd canllaw bach i staff ASA am y Cynllun a chafodd ei gyhoeddi ar fewnwyd ASA (gwelwch Atodiad 1). Mae'r canllaw hwn yn amlygu prif gyfrifoldebau'r staff o dan y Cynllun ac ymhle y gallent gael cefnogaeth. Penderfynwyd y dylid cynnwys y cyfarwyddyd desg yn y canllaw bach hwn, gyda'r adrannau sy'n ymwneud â chael cyfieithiadau mewn dogfen ar wahân i'w defnyddio gan y Swyddogion Iaith Gymraeg. Gohiriwyd cynhyrchiad y podlediad ychydig bach, fel y nodir uchod, ond trefnwyd podlediad yn y Gymraeg am y Cynllun a'r gwasanaethau dwyieithog y mae ASA yn eu darparu i randdeiliaid yng Nghymru a bydd wedi'i gyhoeddi ar wefan gyhoeddus ASA ym mis Chwefror 2013.

49 Cafodd arolwg a gynlluniwyd o wasanaethau dwyieithog ASA i'w rhanddeiliaid sy'n siarad Cymraeg ei ohirio mewn modd tebyg. Bydd yr arolwg yn agor ym mis Ionawr 2013 ac yn derbyn cyhoeddusrwydd ar we-dudalennau 'ASA Cymru', taflen newyddion electronig fisol ASA, Twitter, y podlediad Cymraeg, ac e-byst uniongyrchol at randdeiliaid yng Nghymru.

50 Diweddarwyd adrannau dwyieithog gwefan ASA - am ein gwaith yng Nghymru ac am adolygiadau o sefydliadau yng Nghymru - yn ystod 2012 i sicrhau bod yr wybodaeth yn gyfredol ac wedi'i chyflwyno'n glir. Cyhoeddwyd canllaw hawdd ei darllen ar y gwasanaethau dwyieithog sydd ar gael o dan Gynllun Iaith Gymraeg ASA (a fwriedir i'r cyhoedd yng Nghymru ac yn arbennig i fyfyrwyr), dan y teitl *Cefnogi siaradwyr Cymraeg drwy ein Cynllun Iaith Gymraeg*.

51 Daeth cynrychiolwyr o Dîm Cymru i'r ail gyfarfod blynyddol gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol ar 22 Tachwedd 2012 er mwyn trafod agenda'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Bydd ASA yn ceisio datblygu'r berthynas yma yn 2013, gan gynnwys hybu materion sydd o ddiddordeb cyffredin. Yn ystod 2012, tynnodd Adolygiadau Sefydliadol sylw at arferion da sy'n ymwneud â darpariaeth cyfrwng Cymraeg ac asesiad, gan ganmol yn arbennig waith Canolfan Bedwyr ym Mhrifysgol Bangor.

Atodiad 1: Canllaw bach i staff ASA am y *Cynllun Iaith Gymraeg*

QAA staff mini guide to the *Welsh Language Scheme*



QAA fully supports the equal status of the Welsh and English languages in Wales. We aim to **treat both languages equally** when working with any university, college, person or organisation in Wales. We should grasp every opportunity to promote QAA as a bilingual organisation in relation to our activities in Wales.

Our Welsh Language Scheme sets out our commitment to offer a bilingual service when working with the general public and our major clientele in Wales, as far as is reasonable and practical, and describes how we will do this. Below is a summary of how you can make sure that your everyday work at QAA complies with the Welsh Language Scheme.

The *Scheme* was approved by the Welsh Language Commissioner under section 14(i) of the *Welsh Language Act 1993*. We report to the Welsh Language Commissioner annually on how we have fulfilled our commitment, and also meet the requirements of the Higher Education Funding Council for Wales' (HEFCW) Welsh Language Scheme through our contract with them. The new Welsh Language Commissioner, which replaced the Welsh Language Board in 2012, has powers to fine organisations who do not comply with their own Welsh Language Schemes.

General communication

QAA actively welcomes correspondence - whether electronic, hard copy or by telephone - in Welsh when conducting any business in, or directly related to, Wales. We are committed to replying in Welsh **within the same time frame** as to correspondence received in English. Correspondence that follows a verbal conversation in Welsh between a member of the public and QAA staff should be in Welsh (unless requested otherwise).

If you receive written communication in Welsh and need to have it translated, please contact the Translation Coordinator in the Multimedia Team.

If you need to send written correspondence in Welsh (including circular letters relating to our work in Wales), please contact the Translation Coordinator and allow plenty of time for translation. The Translation Coordinator can advise you on timescales for getting materials translated. Remember to use bilingual stationery and the bilingual QAA logo and address (available from Q-nection) for all bilingual correspondence. Please note that we should never send English and Welsh versions of correspondence separately.

If you receive a telephone call from someone wishing to speak in Welsh, please transfer them to our Welsh Language Officer on extension 7135.

This is a dedicated telephone number and the Welsh Language Officer will know to speak Welsh when it rings. If this line is engaged, or the Welsh Language Officer not available, please take the caller's contact details and notify the Welsh Language Officer. Please note that we are committed to returning Welsh calls on the same day or at the latest the next day.

Website

Our website includes a bilingual section about our work in Wales: clicking the box at the top right gives an alternative language version of any of these pages. Any material relating directly to our work in Wales must be published on our website **simultaneously** in both languages, including:

- publications
- new web pages
- revisions or additions to bilingual pages
- news items, press releases and articles.

Translation is carried out through a contract with an external translation services company. Please allow time for translation when planning publication dates for any material relating to our work in Wales. Contact the Translation Coordinator if you have material which needs to be translated.

Publications

Any publications that deal exclusively with our work in Wales will be published in Welsh and English. Both versions will be made available **at the same time** and have equal prominence. This includes:

- review reports of institutions in Wales
- circular letters
- publicity materials such as leaflets, banners and promotional postcards
- job vacancies advertised in the Welsh media.

Contact the Translation Coordinator if you have material which needs to be translated, and please allow time for translation when planning publication dates. The Translation Coordinator can advise you on timescales.

Events

Delegates and speakers at QAA events which are for the sector in Wales only are welcome to speak and present in Welsh, English or bilingually. The Head of QAA Wales can advise on whether simultaneous translation services are needed, based on the number of delegates expected, the nature of the event and the demand for Welsh language provision.

Reviews

Our main interaction with universities and colleges in Wales is through review of higher education and further education providers, Access Validating Agencies and applicants for degree awarding powers and university title.

Institutions may request, at the initial planning meeting, to have their **review entirely or partially conducted in Welsh**, and we will accommodate this:

- institutions are welcome to submit bilingual versions of the key documents we ask them to provide at the beginning of the review process
- students and staff will be able to communicate with review teams in the language of their choice - where appropriate QAA will provide a simultaneous translation service
- QAA tries to recruit bilingual reviewers where possible, and all our review teams in Wales will usually include at least one Welsh speaker
- the published report at the end of the review process will be produced in Welsh and English
- QAA collects feedback at the end of each review on the provision of Welsh language services offered during the review.

Please contact the Welsh Language Officer or the Head of QAA Wales if you are involved in organising a review and need any help with these Welsh language aspects.

Staffing

Our aim is to have at least two members of staff based in our Gloucester office who are bilingual. The internal committee Team Wales oversees the Scheme (as well as other aspects of our work in Wales) and the Head of QAA Wales is responsible for its implementation.

QAA will encourage and support staff who want to **learn Welsh or improve their Welsh language skills**, particularly those staff who work closely with the sector in Wales. Please speak to your line manager about training and development in this area.

The full Welsh Language Scheme is available at www.qaa.ac.uk/AboutUs/corporate/Policies/Pages/Welsh-Language-Scheme.aspx

If you have any questions concerning the Welsh Language Scheme, please contact the Head of QAA Wales.

QAA 517 04/13

Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch

Southgate House
Southgate Street
Caerloyw
GL1 1UB

Ffôn 01452 557000
Ffacs 01452 557070
Ebst enquiries@qaa.ac.uk
Gwefan www.qaa.ac.uk

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2013

ISBN 978 1 84979 825 9

Mae holl gyhoeddiadau ASA ar gael ar ein gwefan www.qaa.ac.uk.

Rhifau elusen gofrestrdig 1062746 ac SC037786